

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 7fed o DACHWEDD 2022 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Ian Evans (Cadeirydd yn y gadair), Delyth Thomas, Tyssul Evans, Heddwyn Jones, Margaret Rees, Linda Williams, Geraint Rosser, Alan Lewis, y Cyngorwr Sir Meinir James a'r Clerc, Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Aled Williams, Tracey James, Caroline Williams a Meic Bowen

2903 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd yn arbennig Mr Paul Thomas o Fenter Cwm Gwendraeth Elli. Cafwyd adroddiad cynhwysfawr ganddo ar Adfer Ynni yn sgil y cyflwr ariannol presennol sydd yn y Wlad yn gyffredinol. Diolchodd y Cadeirydd iddo am eu cyfraniad arbennig.

2904 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 03/10/2022 fel rhai cywir.

2905 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2887 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2887 - Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymateb gan y 'War memorial Trust'.

Tud 1. Cofnod Rhif 2887 - Llwybr Treftadaeth – Arhoswn am ymholiadau pellach.

Tud 1. Cofnod Rhif 2887 – Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2887 - Meddygfa'r Sarn, Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Feddygfa.

Tud 1. Cofnod Rhif 2887 – Cysgodfa Bys – Tir Dafydd, Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2887 – Rhodfa Ceffylau – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2906 Eisteddfod Bancffosfelen - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

Cyngorwr Tyssul Evans, Is-gadeirydd yn y gadair

Cyngorwr Ian Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2907 Bethel Carwe - .Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cyngorwr Ian Evans, Cadeirydd yn y gadair

Cyngorwyr Linda Williams ac Alan Lewis yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2908 Moreia Meinciau – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Linda ac Alan yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2909 Banc Bwyd Pembre a Phorth Tywyn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

2910 1st Pontyates Rangers - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £250.

2911 Clwb Rygbi Pontiets – Ramp i'r Anabl – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

2912 Tenovus – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2913 CFFI – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2914 Nasareth Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2915 Bethel Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2916 Ebeneser Crwbin – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2917 Cylch Meithrin Carwe ac Ysgol Gwynfryn – Ymgyrch Banc Bwyd – Penderfynwyd danfon Llythyr o ddiolchgarwch at Ysgolion Carwe a Gwynfryn.

Ceisiadau Cynllunio

2918

- a) Rhif y Cais – PL/04787 – Cwar Torcoed – Rhyddhau Amod 3 – Dim Gwrthwynebiad
- b) Rhif y Cais – PL/04861 - Clwb Rygbi Pontiets – Ramp i'r Anabl – Dim Gwrthwynebiad.
- c) Rhif y Cais - PL/04885 - Tŷ Hir, Pedair Heol - Adeilad Amaethyddol - Dim Gwrthwynebiad
- d) Rhif y Cais - PL/04775 - Llwyngwyn, Pedair Heol - 3 Tŷ - Gofynnir am yr amodau canlynol -
 - (1) - Cyfraniad adran 106 tuag at Barc Meinciau
 - (2) - 1 o'r 3 Tŷ i fod yn Dŷ Fforddiadwy
 - (3) – Palmant l'w gosod o flaen y Tai.

.Gwaharddiad y Cyhoedd

2919 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2920 Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Hydref. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

2921 Parc Pontiets - Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod Pwyllgor Gwella Parc Pontiets yn barod i ddanfon cais am nawdd ariannol at Lywodraeth Cymru. Diolchwyd i'r Pwyllgor am eu gwaith arbennig ynglŷn â'r cais.

2922 Hyfforddiant Cod Ymddygiad – Penderfynwyd ymuno gyda Chyngor Cymuned Llandyfaelog mewn hyfforddiant Cod Ymddygiad i Gynghorwyr.

2923 Diffibrilwyr – Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod y 5 Diffibrilwyr newydd wedi eu cofrestru. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith yn y mater hwn.

Cyfarfod nesaf:- 5 ed o Ragfyr 2022 - Neuadd Pontiets

Llofnodwyd..... **CADEIRYDD**

Dyddiad.....

